# Datganiad bod y Parth Gwyliadwriaeth o amgylch y cyfeirnod grid SM8938621496 yn dod i ben

Cadarnhaodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru fod ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol ar safle yng Nghymru yn unol ag erthygl 28(1) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006[1] ("Y Gorchymyn").

Yn unol ag erthyglau 28(1) a 29(2) o'r Gorchymyn, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Barth Gwyliadwriaeth o amgylch y cyfeirnod grid SM8938621496 a ddaeth i rym gyntaf am 17:13 ar 25 Gorffennaf 2025

Mae o leiaf 30 diwrnod wedi mynd heibio ers cwblhau'r mesurau glanhau a diheintio rhagarweiniol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn ar bob safle wedi'i heintio yn y parth hwnnw.

Yn unol ag erthyglau 4 a 36(3) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn dod â'r Parth Gwyliadwriaeth hwnnw i ben.

Mae'r holl dermau yn y Datganiad hwn wedi'u diffinio yn y Gorchymyn.

Mae'r Datganiad hwn yn dod i rym o 17:00 ar 25 Gorffennaf 2025

Llofnod: Natalie Sampson, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol

Dyddiedig: yn 17:00 ar 25 Gorffennaf 2025

O dan awdurdod y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Mae copïau o'r Datganiad hwn a'r Gorchymyn ar gael ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru a chan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

[1] O.S. 2006/2927 (Cy. 262) (fel y'i diwygiwyd).